


A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotoolau Dewisol](#) wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

Noder bod gennym Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.



Ffigwr 1: Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau.

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â'r [Llawlyfr Staff](#) neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Effaith y cynnig tymor byr i ddarparu diwrnod HMS ychwanegol am y tair blynedd academaidd rhwng 2022 a 2025.

Dechreuodd y cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno ym mis Medi 2022, ac fe lansiodd yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol hefyd ym mis Medi 2022. Mae'r cynnig am ddiwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS) ychwanegol am gyfnod cyfyngedig yn un o sawl ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi ymarferwyr i ymwneud â dysgu proffesiynol a datblygu eu sgiliau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("y Rheoliadau") er mwyn darparu ar gyfer y ddau wyliau banc ychwanegol ar 19 Medi ar gyfer Angladd EM y Frenhines Elisabeth II, a Chroni EF y Brenin Charles III ar 8 Mai 2023.

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer nifer y sesiynau ysgol y mae'n rhaid eu cyflwyno mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Mae'r rhif hwn yn cael ei addasu o bryd i'w gilydd er mwyn darparu ar gyfer diwrnodau HMS ychwanegol at ddiben penodol neu ar gyfer gŵyl banc ychwanegol, drwy ddiwygio'r Rheoliadau.

Yn unol â Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022/23, mae'r nifer gofynnol o sesiynau ysgol (hanner diwrnod) y mae'n rhaid eu cyflwyno ym mlwyddyn ysgol 2022-23 wedi gostwng o bedwar.

Gwnaed gwelliannau tebyg yn gynharach eleni yn 2022 ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines ac yn 2011 ar gyfer y Briodas Frenhinol ac eto yn 2012 ar gyfer Jiwbilî Diemwnt y Frenhines. Ar gyfer gwyliau'r banc hyn yn 2022-23, mae pob un o bedair gwlad y DU wedi cytuno ar ddull cyffredin o weithredu.

Bydd y Rheoliadau Diwygio ond yn cael effaith ar flwyddyn ysgol 2022-23.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.
- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau¹ o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

¹ Er enghraifft, efallai y byddwch yn ystyried effeithiau gwahanol eich polisi ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tldi; Plant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr;

Cofiwch y gall polisiâu sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

- Pa waith yn cynnwys plant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.²

I gael cyngor ar waith yn cynnwys plant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas ers tro â Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy eu rhaglen Cymru Ifanc.

Bwriedir i'r diwrnod HMS ychwanegol, a gefnogwyd gan dros 80% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant drwy sicrhau bod eu hathrawon, eu cynorthwyrwyr addysgu a'r rhai sy'n arwain eu hysgolion yn barod ac yn hyderus i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, yn deall y diwygiadau ADY ac yn sicrhau tegwch mewn addysg.

Drwy ddarparu amser HMS penodol er mwyn i athrawon ac ysgolion ei ddefnyddio i baratoi, dylai plant gael profiad gwell wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno gan y bydd hyn yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu eu sgiliau a fydd yn cael effaith bendant yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y defnydd a wneir o ddiwrnodau HMS yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn ystod y broses o werthuso'r polisi, ac felly dylai plant elwa yn y tymor hir ar y ffaith bod eu hathrawon yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda a'i deilwra.

Yn y tymor byr, bydd plant yn colli tridiau o addysg ysgol dros dair blynedd. Gallai hyn gael effaith negyddol bychan ar rai plant gan eu bod yn colli diwrnod o addysgu. Fodd bynnag, gan y bydd pawb yn colli'r diwrnod ni fydd yr elfen arferol o 'ddal i fyny' sy'n dilyn absenoldeb yn berthnasol. Gall ymddangos y byddai hyn yn effeithio ar bob plentyn yr un fath ar yr wyneb, gan na fydd neb yn gallu mynd i'r ysgol ar gyfer y sesiynau hynny. Fodd bynnag, efallai y bydd plant sy'n byw mewn tldi neu sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gartref yn teimlo'r effaith yn fwy na'r gweddill, er enghraifft oherwydd colli strwythur y diwrnod ysgol neu brydau ysgol am ddim.

Mae'r ymgyrch i wella presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf ac yn enwedig o ganlyniad i bandemig Covid yn golygu efallai na fydd effaith colli diwrnod o addysg ar lefel y boblogaeth gyffredinol yn cael ei dderbyn mor gynnes ag o'r blaen. Gall peri i ddysgwyr golli diwrnod o addysg ymddangos yn groes i'r ymgyrch i wella presenoldeb. Fodd bynnag, bydd sicrhau bod ymarferwyr yn cael amser i wella eu sgiliau a datblygu arferion am ddiwrnod ychwanegol y flwyddyn yn lliniaru unrhyw effaith andwyol.

ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant â phrofiad o ofal; plant LHDTQ+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac nad un profiad unffurf a fydd gan bawb o fewn y carfanau hyn.

² Dywed Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Er y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn, ni ymgynghorwyd yn uniongyrchol â phlant ynglŷn â'r polisi hwn; dyma ateb ymarferol tymor byr i fater a godwyd gan athrawon ynghylch eu datblygiad proffesiynol. Roedd mwyafrif llethol o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi cael diwrnod HMS ychwanegol. Rydym yn bwriadu cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd HMS a bydd barn y dysgwyr yn elfen hanfodol o'r gwerthusiad hwn. Mae'n debygol y bydd angen i unrhyw sgwrs ehangach ynghylch y flwyddyn ysgol ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac mae hyn yn cael ei symud ymlaen mewn manau eraill.

Mae gan y systemau addysg sy'n perfformio orau yn fyd-eang athrawon a staff cynorthwyol egniol, sy'n ennyn diddordeb ac yn ymrwymedig i ddysgu parhaus. Mae'r ymrwymiad hwn i ddysgu proffesiynol, sy'n parhau gydol gyrfa, yn allweddol i ansawdd ac effaith y dysgu a'r addysgu yn y wlad. Yng Nghymru, rydym wedi datblygu dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa i'n gweithlu mewn ysgolion, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, staff cyflenwi ac arweinwyr. Rydym eisiau cefnogi ymarferwyr yng Nghymru i fod yn ddysgwyr gydol oes sy'n myfyrio ar eu harferion eu hunain ac yn eu gwella er mwyn ysbrydoli ac ysgogi plant a phobl ifanc yn eu hysgolion.

Bydd canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol yng nghyd-destun ein blaenoriaethau i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd, diwygiadau ADY a thegwch mewn addysg yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant cenhadaeth ein cenedl i ddarparu system addysg ddiwygiedig a llwyddiannus yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd cefnogi ymarferwyr i gyflawni ein prif flaenoriaethau yn arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr ar draws y sector ysgolion. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau a wnaed mewn adroddiad diweddar gan yr OECD ar Ddysgu Proffesiynol Athrawon a nododd:

“There sometimes appears to be a tendency to see supporting teachers to prepare the new Curriculum for Wales as an end in itself, rather than to see effective realisation of the curriculum as a means to enhancing pupil outcomes.”

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r asesiad hwn wedi dod o ymchwil i ddysgu proffesiynol a wnaed ar y cyd gan [Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2018](#), [Adolygiad Thematig Estyn yn 2013](#), Adroddiad Waters 'Addysgu Proffesiwn Gwerthfawr' a [chanlyniadau ymgynghoriad 2022](#) a [chrynodeb o ymatebion i ymgynghoriad 2019](#) ar gyfer HMS ychwanegol.

Bydd canlyniadau arfaethedig cwricwlwm a diwygiadau eraill a gyflwynir yn llwyddiannus yn gwella addysg plant a phobl ifanc a bydd y gwir ganlyniadau yn dod yn eglur wrth i'r cwricwlwm gael ei weithredu dros y tymor hir ac ymarferwyr yn hyddysg yn ei gylch. Roedd adroddiad Estyn yn ystyried peth o'r dystiolaeth sydd y tu ôl i'r llwyddiant neu fel arall o ddiwrnodau HMS, a ph'un a ellir cysylltu hyn â chynnydd a deilliannau disgyblion. Nododd yr adroddiad, er y gall cysylltu'r ddau fod yn anodd, bod y rhai sy'n elwa ar ddysgu proffesiynol yn addasu eu hymarfer er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar ddisgyblion.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?
- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotoolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr [erthyglau](#) i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

Erthyglau neu Brotool Dewisol y Confensiwn	Yn Gwella (X)	Yn Herio (X)	Esboniad
<p>Erthygl 12</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried 	X	X	<p>Ymatebodd Comisiynydd Plant Cymru i gefnogi'r diwrnod HMS ychwanegol ond dywedodd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar y cynnig hwn fel bod eu barn yn cael ei ystyried yn briodol mewn cynlluniau ar gyfer cyflwyno diwrnod ychwanegol o HMS. Er nad oedd unrhyw gysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng 20 Medi a 28 Hydref 2022.</p> <p>Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol gan y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr. Bydd effaith uniongyrchol y dyddiau HMS ychwanegol ar ymarferwyr gan y byddant yn cael yr amser a'r gofod i gymryd rhan mewn Dysgu Proffesiynol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Bydd canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol yng nghyd-destun ein blaenoriaethau i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd, diwygiadau ADY a thegwch mewn addysg yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant cenhadaeth ein cenedl i ddarparu system addysg ddiwygiedig a llwyddiannus yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd cefnogi ymarferwyr i gyflawni ein</p>

		<p>prif flaenoriaethau yn arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr ar draws y sector ysgolion. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau a wnaed mewn adroddiad diweddar gan yr OECD ar Ddysgu Proffesiynol Athrawon a nododd:</p> <p><i>“There sometimes appears to be a tendency to see supporting teachers to prepare the new Curriculum for Wales as an end in itself, rather than to see effective realisation of the curriculum as a means to enhancing pupil outcomes.”</i></p> <p>Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r asesiad hwn wedi dod o ymchwil i ddysgu proffesiynol a wnaed ar y cyd gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2018, Adolygiad Thematig Estyn yn 2018, Adroddiad Waters 'Addysgu Proffesiwn Gwerthfawr' a chanlyniadau ymgynghoriad 2022 a chrynodeb o ymatebion i ymgynghoriad 2019 ar gyfer HMS ychwanegol.</p> <p>Bydd canlyniadau arfaethedig cwricwlwm a diwygiadau eraill a gyflwynir yn llwyddiannus yn gwella addysg plant a phobl ifanc a bydd y gwir ganlyniadau yn dod yn eglur wrth i'r cwricwlwm gael ei weithredu dros y tymor hir. Mae'r adroddiad Estyn y cyfeirir ato uchod yn ystyried peth o'r dystiolaeth sydd y tu ôl i'r llwyddiant neu fel arall o ddiwrnodau HMS, a ph'un a ellir cysylltu hyn â chynnydd a deilliannau disgyblion.</p> <p>Rydym yn bwriadu cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd HMS a bydd barn y dysgwyr yn elfen hanfodol o'r gwerthusiad hwn. Bydd barn plant a phobl ifanc hefyd yn cael ei geisio o ran gwaith</p>
--	--	--

<p>Erthygl 18</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio 	<p>X</p>	<p>X</p>	<p>ehangach ar strwythur y diwrnod/blwyddyn ysgol.</p> <p>Ni fu ymgynghoriad ar y newid i'r Rheoliadau ar gyfer gwyliau'r banc gan fod y rhain wedi'u darparu gan lywodraeth y DU ac mae gan staff ysgolion hawl i gymryd y diwrnodau ychwanegol yn unol â'u telerau ac amodau.</p> <p>Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori yn uniongyrchol â dysgwyr felly.</p> <p>Byddai modd defnyddio diwrnodau ychwanegol o'r ysgol i gyfrannu'n bositif tuag at les diwylliannol. Yn benodol, teuluoedd yn dod at ei gilydd i wyllo Angladd Brenhinol fel arwydd o barch neu'r Coroni i ddathlu.</p> <p>Efallai y bydd angen i rai rhieni gymryd amser ychwanegol o'r gwaith oherwydd y polisi sy'n cael ei gynnig neu y byddai angen dod o hyd i ofal plant ychwanegol ac fe allai hynny fod yn broblem i rai. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod costau ychwanegol i rieni/gofalwyr. Ar y diwrnod ychwanegol mae'n bosibl na fydd rhai gwasanaethau ar gael i rieni yn yr un ffordd ag y bydden nhw pe bai'r ysgolion ar agor.</p> <p>Ond mae'r diwrnod HMS ychwanegol wedi bod ar gael i ysgolion ers 2019 ac ar ôl y pandemig mae mwy o rieni yn gallu gweithio yn hyblyg neu weithio gartref. Yn ystod yr argyfwng costau byw hwn rydym yn cynnig bod yr HMS yn cael ei gymryd yn nhymor yr haf i leihau'r effaith ar rieni / gofalwyr. Bydd ysgolion yn cael eu cynghori i roi cymaint â phosibl o rybudd am eu diwrnodau</p>
---	----------	----------	---

<p>Erthygl 28</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. 	<p>X</p>	<p>X</p>	<p>HMS, er ein bod yn cydnabod y bydd cyfyngiadau ar y cyfnod rhybudd yn 2022 i 2023. Fodd bynnag, mae sicrhau bod ysgolion wrth wraidd eu cymunedau – gan feithrin cydberthnasau gwell rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth ardderchog a'r camau nesaf mewn yn addysg a hyfforddiant – yn ganolog i'r ystyriaeth bolisi hon.</p> <p>Mae galluogi pob dysgwr, ac yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig, wneud cynnydd ar ei lwybr dysgu ei hun ac i godi ei ddyheadau i wireddu ei botensial yn llawn, yn hollbwysig ym mhopeth a wnawn. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi llesiant dysgwyr ac ymarferwyr.</p> <p>Yn y tymor byr, bydd plant yn colli tridiau o addysg ysgol dros dair blynedd. Gallai hyn gael effaith negyddol bychan ar rai plant gan eu bod yn colli diwrnod o addysgu. Fodd bynnag, gan y bydd pawb yn colli'r diwrnod ni fydd yr elfen arferol o 'ddal i fyny' sy'n dilyn absenoldeb yn berthnasol.</p> <p>Gall ymddangos y byddai hyn yn effeithio ar bob plentyn yr un fath ar yr wyneb, gan na fydd neb yn gallu mynd i'r ysgol ar gyfer y sesiynau hynny. Fodd bynnag, efallai y bydd plant sy'n byw mewn tloedi neu sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentynodod gartref yn teimlo'r effaith yn fwy na'r gweddill, er enghraifft oherwydd colli strwythur y diwrnod ysgol neu brydau ysgol am ddim.</p>
---	----------	----------	---

<p>Erthygl 29</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill a'r amgylchedd. 	<p>X</p>	<p>X</p>	<p>Mae'r ymgyrch i wella presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu efallai na fydd effaith colli diwrnod o addysg ar lefel y boblogaeth gyffredinol mor ddifrifol ag y byddai pe bai'r lefelau presenoldeb yn is.</p> <p>At hynny, bydd cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi mewn sgiliau ymholi ac addysgeg yr holl staff a galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer pob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad dysgu, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y newidiadau yn y system addysg yng Nghymru yn cael eu gwireddu'n llawn.</p> <p>O ran gwyliau banc, byddai modd defnyddio diwrnodau ychwanegol o'r ysgol i gyfrannu'n bositif tuag at les diwylliannol. Yn benodol, teuluoedd yn dod at ei gilydd i wylio Angladd Brenhinol fel arwydd o barch neu'r Coroni i ddathlu.</p> <p>Mae galluogi pob dysgwr, ac yn benodol y rheini o gefndiroedd difreintiedig, i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu huchelgeisiau i gyflawni eu llawn botensial yn rhan hanfodol o'n holl waith, gan sicrhau hefyd bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi llesiant dysgwyr ac ymarferwyr. Bydd y diwrnod HMS ychwanegol yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon gan eu harfogi â gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn iddynt ddarparu dysgu mwy arloesol a sicrhau addysgu o ansawdd uchel.</p>
---	----------	----------	---

		<p>Yn y tymor byr, bydd plant yn colli tridiau o addysg ysgol dros dair blynedd. Gallai hyn gael effaith negyddol bychan ar rai plant gan eu bod yn colli diwrnod o addysgu. Fodd bynnag, gan y bydd pawb yn colli'r diwrnod ni fydd yr elfen arferol o 'ddal i fyny' sy'n dilyn absenoldeb yn berthnasol.</p> <p>Gall ymddangos y byddai hyn yn effeithio ar bob plentyn yr un fath ar yr wyneb, gan na fydd neb yn gallu mynd i'r ysgol ar gyfer y sesiynau hynny. Fodd bynnag, efallai y bydd plant sy'n byw mewn tlodi neu sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentynod gartref yn teimlo'r effaith yn fwy na'r gweddill, er enghraifft oherwydd colli strwythur y diwrnod ysgol neu brydau ysgol am ddim.</p> <p>Mae'r ymgyrch i wella presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu efallai na fydd effaith colli diwrnod o addysg ar lefel y boblogaeth gyffredinol mor ddifrifol ag y byddai pe bai'r lefelau presenoldeb yn is.</p> <p>At hynny, bydd cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi mewn sgiliau ymholi ac addysgeg yr holl staff a galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer pob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad dysgu, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y newidiadau yn y system addysg yng Nghymru yn cael eu gwireddu'n llawn.</p> <p>Bydd dysgu proffesiynol yn gwella sgiliau ymarferwyr i ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn i'r eithaf. Bydd yn helpu i wreiddio pedwar diben y cwricwlwm newydd</p>
--	--	---

			a sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.
--	--	--	--

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Amherthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth yn y broses hon, ewch i'r dudalen [Hawliau Plant ar y Fewnwyd](#)

4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Mae'r penderfyniad polisi i ystyried diwrnod HMS ychwanegol wedi cael ei hyrwyddo gan y proffesiwn ei hun gan gynnwys yr undebau. Ceisio ychwanegu diwrnod HMS ychwanegol yw'r ymateb Gweinidogol. Mae'r Gweinidog wedi ystyried pob agwedd ar y polisi cyn cynghori swyddogion i frw ymlaen. Roedd yr holl gyngor y Gweinidogol yn crynhoi prif effeithiau'r cynnig.

Roedd cynnal y dadansoddiad o'r effeithiau cyn yr ymgynghoriad yn caniatáu inni ystyried y camau lliniaru y gellid eu rhoi ar waith pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad lawer o'r un effeithiau. Er hynny, roedd dros 81% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddarparu diwrnod HMS ychwanegol rhwng 2022 a 2025.

5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Ni wnaethom ofyn yn uniongyrchol am farn plant a phobl ifanc ynghylch y cynnig hwn. Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng 20 Medi a 28 Hydref 2022, a rannwyd gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Ymatebodd y Comisiynydd i gefnogi diwrnod HMS ychwanegol. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Os yw eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant i gael rhagor o gyngor.

6. Monitro ac Adolygu

Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i nodi a welwyd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-ddeddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen i chi ddiweddarau'r Asesiad i ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailedrych ar y fersiwn o'u Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd, ei ailenwi'n adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a diweddarau'r dystiolaeth o effaith. Dylid cyflwyno'r Asesiad Effaith a Adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion ynghylch diwygio'r polisi, yr arfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi'r Asesiad hwn a adolygwyd hefyd.

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 28 Hydref 2022 ac ar ôl dadansoddi'r ymatebion cafodd yr asesiad effaith ei adolygu a'i ddiweddarau. Yn benodol, aethom i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru o ran ymwneud â phlant a phobl ifanc. Fel yr awgrymwyd ganddi, buom hefyd yn ystyried Erthyglau 12 a 29 o'r CCUHP.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r modd y'i rhoddir ar waith?

Na, roedd mwyafrif llethol yr ymatebion yn cytuno â'r polisi a gynigiwyd.